Cafcass Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dogfen Disgwyliadau Cafcass Cymru

Dadansoddiad o Effaith ar Blant

Mae'r Rhaglen Trefniadau Plant (RhTP) yn berthnasol pan fo anghydfod yn codi rhwng rhieni sydd wedi gwahanu a/neu deuluoedd ynghylch trefniadau sy'n ymwneud â phlant. Mae'r RhTP wedi'i chynllunio i gynorthwyo teuluoedd i greu cytundebau diogel ac sy'n canolbwyntio ar blant ar gyfer eu plentyn, lle bo'n bosibl, allan o'r llys. Os na allai rhieni/teuluoedd ddod i gytundeb, a bod cais yn cael ei wneud i'r llys, mae'r RhTP yn annog datrys yr anghydfod yn gyflym drwy'r llys. Cydnabyddir yn gyffredin bod cytundebau a drafodir rhwng oedolion yn gyffredinol yn gwella cydweithrediad hirdymor, ac yn well i'r plentyn dan sylw. Felly, anogir rhieni sydd wedi gwahanu a theuluoedd yn gryf i geisio datrys eu hanghydfod ynghylch y plentyn y tu allan i system y llys. Gall hyn hefyd fod yn gyflymach, yn rhatach ac yn well i'r plentyn.

Bydd Cafcass Cymru yn cwblhau adroddiad Dadansoddiad o Effaith ar Blentyn, pan na ellir datrys yr anghydfod yn Apwyntiad Datrys Anghydfod y Gwrandawiad Cyntaf (FHDRA) ac mae yna bryderon diogelu/lles clir sydd angen eu hasesu ymhellach neu mae angen i ddymuniadau a theimladau'r plentyn gael eu clywed yn glir gan y llys. Datblygwyd y Dadansoddiad o Effaith ar Blentyn i sicrhau bod y plentyn wrth galon y gwaith sy'n cael ei wneud. Mae'n osgoi canolbwyntio ar broblemau'r oedolion ac yn hytrach mae'n annog pawb sy'n cymryd rhan i ystyried sut mae'r plentyn yn cael ei effeithio gan y sefyllfa a sut mae ef yn gweld y sefyllfa. Nod dull y Dadansoddiad o Effaith ar Blentyn yw canolbwyntio ar ddatrys problemau'r achos, gan roi mwy o gyfle i gytundebau gael eu creu rhwng yr oedolion er lles y plentyn/plant. Bydd adroddiad y Dadansoddiad o Effaith ar Blentyn yn cael ei ffeilio yn unol â Adran 7 Deddf Plant 1989.

Mewn achosion lle mae angen gwrandawiad Darganfod Ffeithiau, ni fydd y llys yn gofyn am ddadansoddiad o effaith ar y plentyn hyd nes y penderfynir ar y ffeithiau yn yr achos.

Bydd Cafcass Cymru yn gwneud trefniadau gyda'r oedolion yn y llys i weld y plentyn/plant a dechrau ar y gwaith hwn cyn gynted â phosib. Gallai hyn gynnwys arsylwadau a gweithio uniongyrchol gyda'r plentyn yn dibynnu ar ei oedran a'i ddealltwriaeth. Gall Cafcass Cymru ddefnyddio ystod o offer i'w helpu i nodi'r problemau i'r plentyn/plant ac i allu dweud wrth y llys beth fydd y cynllun gorau ar gyfer y plentyn/plant. Gall Cafcass Cymru ofyn i'r oedolion sy'n ymwneud â'r mater gyfarfod gyda'i gilydd ar ôl i'r gwaith ddechrau gyda'r plentyn. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r oedolion dan sylw dderbyn adborth a cheisio trefnu cytundeb. Mewn achosion lle mae pryderon am gam-drin domestig a/neu ddiogelu (a honnir neu a brofwyd) eisoes wedi'u nodi, ni ddisgwylir hyn.

Bydd y llys yn caniatáu deuddeg wythnos ar gyfer cwblhau Dadansoddiad o Effaith ar Blentyn; mae hyn yn cynnwys unrhyw adroddiad a baratowyd ar ddymuniadau a theimladau'r plentyn/plant. Unwaith y byddwn wedi cwblhau ein hymholiadau byddwn yn ysgrifennu ein hadroddiad a bydd hwn yn cael ei ffeilio gyda'r llys a'i anfon at y partïon/neu eu cyfreithiwr. Ni fyddwn yn gallu siarad â phartïon ymhellach ar ôl cwblhau hyn.

Mae'n bwysig eich bod chi'n gwybod y byddwn yn cydbwyso hawliau'r plentyn i gael perthynas ystyrlon gyda'i ddau riant. Gallai hyn olygu gwneud argymhellion neu awgrymiadau sy'n wahanol i'r hyn y mae partïon yn meddwl ddylai ddigwydd.

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG35288

Cafcass Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafcass Cymru Expectations Document

Child Impact Analysis

The Child Arrangements Programme (CAP) applies where a dispute arises between separated parents and/or families about arrangements concerning children. CAP is designed to assist families to reach safe and child-focused agreements for their child, where possible out of the court setting. If parents/families are unable to reach agreement, and a court application is made, CAP encourages swift resolution of the dispute through the court. It is well-recognised that negotiated agreements between adults generally enhance long-term co-operation, and are better for the child concerned. Therefore, separated parents and families are strongly encouraged to attempt to resolve their disputes concerning the child outside of the court system. This may also be quicker, cheaper and more child focused.

A Child Impact Analysis report will be completed by Cafcass Cymru, when the dispute cannot be resolved at the First Hearing Dispute Resolution Appointment (FHDRA) and there are clear safeguarding/welfare concerns that require further assessment or the child's wishes and feelings need to be clearly heard by the court. The Child Impact Analysis has been developed to ensure that the child is at the centre of the work being undertaken. It avoids a focus on the issues of the adults and instead encourages all involved to consider how the child is impacted by and sees the situation. The aim of the Child Impact Analysis approach is to focus on the resolution of the issues of the case, providing increased opportunity for agreements to be reached between the adults for the benefit of the child/ren. The Child Impact Analysis report will be filed pursuant to S7 Children Act 1989.

In cases where a Fact Finding hearing is required, the court will not ask for a child impact analysis until the facts in the case have been determined.

Cafcass Cymru will make arrangements with the adults at court to see the child/ren and commence this work as soon as is possible. This could include observations and direct work with the child depending upon their age and understanding. Cafcass Cymru may use a range of tools to help them identify the issues for the child/ren and to be able to tell the court what the best plan for the child/ren will be. Cafcass Cymru may ask the adults involved in the matter to meet together after work has started with the child. This will allow the adults involved to receive feedback and try and broker an agreement. In cases where domestic abuse and/or safeguarding concerns (alleged or proven) have already been identified, this will not be expected.

The court will allow twelve weeks for the completion of a Child Impact Analysis; this includes any report prepared on the child/ren's wishes and feelings. Once we have completed our enquiries we will write our report and this will be filed with the court and sent to parties/or their solicitor. We will not be able to speak to parties further after this has been completed.

It's important you know we will be balancing the rights of the child to have a meaningful relationship with both their parents. This may mean making recommendations or suggestions that differ from what parties think should happen.

OGL © Crown copyright 2017 WG35288